## P-06-1475 Gwella diogelwch yr A458, Treberfedd, Powys ar frys yn sgil gyrru peryglus parhaus

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Amanda Jenner, ar ôl casglu 311 lofnodion ar lein a 107 lofnodion ar bapur, sydd yn wneud cyfanswm o 418 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Yn dilyn nifer o ddamweiniau a marwolaeth drasig preswylydd lleol ar yr A458, Treberfedd (y tu allan i Bank Farm), mae'r Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Lleol wedi galw am welliannau diogelwch brys ar y rhan hon o'r ffordd i helpu i atal ceir rhag goddiweddyd yn beryglus lle mae dau bant cudd. Mae ymateb diweddar gan y Gweinidog Trafnidiaeth yn dweud nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd yn y lleoliad hwn. Ni allwn aros am farwolaeth arall. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae trigolion lleol, yn ogystal â llawer o aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n teithio ar y ffordd hon yn rheolaidd, wedi'u tristáu ac yn rhwystredig nad oes unrhyw beth arall yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i wella diogelwch y ffyrdd yn yr ardal hon. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet fod yn bresennol mewn cyfarfod ar y safle i drafod y pryderon ymhellach.

Er mwyn gwella'r rhan hon o'r ffordd, mae angen rhoi ystyriaeth frys i ddarparu'r canlynol:

- Camera cyflymder parhaol

- Ymestyn y llinellau 'dim goddiweddyd' gwyn dwbl i'r ddau gyfeiriad

- Rhoi wyneb newydd ar y ffordd, yn benodol yr ardaloedd tarmac coch.

• Golau sy'n fflachio sy'n dangos cyflymder gyrrwr ac yn dweud na ddylid goddiweddyd ceir eraill.

• Golau sy'n fflachio i dynnu sylw at y ffaith bod car yn y pant cudd o'u blaenau.

Fel rhan o'r adolygiad o ddiogelwch ar y ffyrdd, hoffem i gyflymder y ffordd gael ei ystyried, ac a fyddai lleihau'r cyflymder yn helpu i atal unrhyw ddamweiniau yn y dyfodol

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru